Modiwl: ECAD6006C
Yr Iaith ar Daith 3

Darlith 2

# Dulliau Cyfathrebu Cyfredol i Addysgu Iaith

Gan feddwl yn ôl dros eich amser gyda ni, beth ydych chi wedi dysgu fel ‘athrawon ieithoedd’ yn y sector cynradd?

Beth yw eich profiad chi o ran dysgu ac addysgu iaith?
Trafodwch yn eich grŵp gan nodi unrhyw ansoddeiriau allai ddisgrifio’r dulliau a ddefnyddiwyd mewn unrhyw wersi rydych chi wedi eu profi. Gallwch dynnu ar eich profiad fel disgyblion neu fyfyrwyr ar gyfnodau PAP.

# ‘Iaith Achlysurol’ *NEU ‘Iaith Atodol’*
# Incidental Language

*Beth mae’r enw yma’n ei awgrymu?*

Mae ‘Addysgu Achlysurol’ yn broses o drosglwyddol iaith drwy labelu a disgrifio yn y rhyngweithio sy’n digwydd yn naturiol rhwng oedolyn a phlentyn.

Ystyriwch y gwahaniaeth rhwng dysgu ‘achlysurol’ a dysgu ‘bwriadol’.

**YSTYRIWCH Y GWAHANIAETH RHWNG DEFNYDDIO ATODOL AC ACHLYSUROL I GYFIEITHU ‘INCIDENTAL’!**

Result 2 of 3 in this book for is incidental language learning a communicative approach - ‹ Previous Next › - View all

input processing (Van Patten 1992, Van Patten and Cadierno 1994), preliminary intake and final intake (Chaudron 1985), uptake (Allwright 1984, Slimani 1987, 1992), language awareness (James and Garett 1991).

Schmidt (1995: 5) has successfully stressed the importance of awareness in language learning, clarifying the issue by addressing the following questions:

1) Can there be learning without intention (that is, incidental learning)?

2) Can there be learning without attention or noticing?

3) Can there be learning without understanding (that is, implicit learning)?

The answer to the first question is clearly affirmative in the case of child language acquisition. Children acquire the grammar of their language unconsciously, that is incidentally, as a by-product of communication and socialization (Schmidt 1993: 208). However, in the case of adult language learning, evidence from psychological experiments shows that when a task does not focus attention on what needs to be learned, intentional learning may be superior. In such a case the motivation to learn may lead to the adoption of effective cognitive and metacognitive strategies (Pintrich 1989). In second language learning, in spite of Krashen's evidence supporting


Cerddwch
Siaradwch
Edrychwch
Gwrandewch
Ysgrifennwch
Darllenwch
Sefwch
Eisteddwch
Meddyliwch
Dim Siarad


Missing word, letter, need to extend
DT
Discussed with Teacher
Cyfarchion
Greetings
Beth sy'n bod?
Dymuniadau gorau.
Dewch gyda fi.
Pwy sy'n siarad os gwelwch yn dda?
Esgusodwch fi.
Mae'n ddrwg da fi.
Ga ich helpu chi?
Croeso i'r dosbarth
Gorchmynion
Commands
Ysgrifennwch yn eich llyfrau
Rhowch y cadeiriau o dan y ddesg.
Rhowch y golau ymlaen.
Ewch allan i'r iard i chwarae.
Dangoswch eich gwaith i..
Cerddwch yn araf i'r neuadd.
Byddwch yn oflaus.
Aroswch funud.
Cwrteisi
Courtesy
Ga i fynd i'r ty bach os gwlewch yn dda?
Ga i fynd i weld ... os gwelwch yn dda?
Ga i fynd allan i chwarae os gwelwch yn dda?
Ga i fenthyg ... os gwelwch yn dda?
Gwnewch res wrth y drws yn dawel.
Positive Negative Number Line
I am, I know, I can

# Cyrch-ddull a Dull

## Cyrch-ddull (approach)

Label 'ymbarel' yw *cyrch-ddull*. Cyfeiria at set o ragdybiaethau, damcaniaethau a chredoau sy'n cydfynd â'i gilydd ac sydd wedi eu seilio ar natur dysgu ac addysgu iaith

(Mae 'cyrch-ddull hefyd yn adlewyrchu 'athroniaeth'.)

## Dull (method)

Mae'r label *Dull* yn cyfeirio at y modd y rhoddir y *cyrch-ddull* ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

Heddiw, byddwn yn ystyried mewn manylder ddulliau ar gyfer addysgu iaith. (8)

Yn ei bennod 'Dulliau Dysgu a'r Dosbarth Iaith', mae'r arbenigwr methodoleg addysgeg iaith, Dr Emyr Davies, yn tynnu sylw at bwynt allweddol wrth ddweud **nad oes y fath beth â'r 'un dull perffaith**' (*Cyfoethogi'r Cyfathrebu*, Jones, C. a Morris, S: 1).

Mae angen ystod eang o ddulliau ar athrawon fel eu bod yn gallu dewis a dethol ac addasu i greu'r dull gorau ar gyfer y disgyblion yn eu gofal.

Drwy gyfrwng y sleidiau nesaf, ystyriwn rai o'r dulliau (a'r cyrch-ddulliau) y gallwn eu mabwysiadu …

# DULL TROCHI / LANGUAGE IMMERSION

Beth wyddoch chi am y dull hwn? Beth mae'r enw'n ei awgrymu?

Yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, y dull a ddefnyddir gan amlaf yw'r **Dull Trochi.**

# DULL GRAMADEG / GRAMMAR METHOD

Beth wyddoch chi am y dull hwn? Beth mae'r enw'n ei awgrymu?

Ar y pegwn arall, ceir y **Dull Gramadeg.**

# DULL UNION / DIRECT METHOD

Beth wyddoch chi am y dull hwn? Beth mae’r enw’n ei awgrymu?

Daeth y **Dull Union** fel adwaith i’r dull *gramadeg*, ac yn ôl y dull hwn, mae’r athro yn osgoi pob esboniad ac yn ceisio dysgu drwy luniau ac ystumiau’n unig.

Mae’r pwyslais yn gyfangwbl ar ddefnyddio’r iaith newydd (yr ‘iaith darged’) fel cyfrwng.

Emyr Davies: fel ‘paentio tŷ trwy daflu bwceidiau o baent ato – mae’n bosibl cyrraedd y nod, ond ei bod yn ffordd wastraffus iawn o fynd ati.’

http://stardusted.tumblr.com/post/88027125982/happiness-is-throwing-yellow-paint-on-walls



# Wyddoch chi beth sydd yma?



# DULL CLYWLAFAR /AUDIOLINGUAL METHOD

Beth wyddoch chi am y dull hwn? Beth mae'r enw'n ei awgyrmu?

Mae'r **Dull Clywlafar** wedi bod un dylanwadol iawn.

Mae'n seiliedig ar ddynwared a drilio.

# DULL SEFYLLFAOL / SITUATIONAL METHOD

Beth wyddoch chi am y dull hwn? Beth mae'r enw'n ei awgrymu?

Rhyw fath o amrywiad o'r dull clywlafar yw'r **Dull Sefyllfaol.**

# DULLIAU CYFATHREBOL/ COMMUNICATIVE METHODS

Beth wyddoch chi am y dulliau hyn? Beth mae’r enw’n ei awgrymu?

O tua 1970 ymlaen, daeth ‘chwyldro’ yn y modd yr oedd athrawon yn addysgu iaith, a daeth ystod o **Ddulliau Cyfathrebol** i fod.

Mae’r dulliau hyn yn parhau’n boblogaidd heddiw.

# Tasg

Beth yw  manteision a chyfyngiadau gwaith pâr a gwaith grŵp mewn dosbarth iaith?

.



# Jack Richards

*"Generous in sharing his expertise with junior members of the profession, unstinting in his efforts to promote excellent language teaching in all parts of the world, indefatigable in showing the applications of theory to teaching practice in the classroom, Dr. Richards is a fine example of what English language education and applied linguistics can accomplish."*

- https://www.youtube.com/watch?v=URpjAcs9fy0

# DULL DYSGU TRWY DASGAU
# TASK-BASED LEARNING METHODS

Beth wyddoch chi am y dull hwn? Beth mae'r enw'n ei awgrymu?

Mae'r dull **Dysgu Trwy Dasgau** yn ceisio sicrhau bod y gwersi'n gwbl berthnasol i anghenion penodol y dysgwyr fel eu bod yn gweld gwerth mewn dysgu'r iaith er mwyn cyflawni'r dasg.

Yr allwedd felly yw dewis tasgau sy'n berthnasol i'r dosbarth cyfan a'u hannog i roi'r dasg ar waith yn y byd 'go iawn' tu hwnt i'r wers iaith.

# DULL DYSGU TRWY DASGAU

https://www.youtube.com/watch?v=GfPrGTNrRNc



# Y Cyrchddull Cyfathrebol Clasurol (Cyfredol)

Yr Egwyddorion:

1. Cyfathrebu ystyrlon a phwrpasol
2. Cynnwys
3. Sgiliau Ieithyddol Integredig
4. Gwybodaeth fetaieithyddol
5. Rhoi cynnig arni a gwneud gwallau
6. Wedi ei ganolbwyntio ar y dysgwyr
7. Yr athro yn hwylusydd
8. Cydweithio/ Cydweithredu (collaboration)

# Deall tasgau ‘Cywirdeb vs Rhuglder’

## Nodweddion gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar ruglder

- Yn adlewyrchu defnydd naturiol iaith
- Ffocws ar lwyddo i gyfathrebu
- Yn galw am ddefnyddio iaith yn ystyrlon
- Yn galw am ddefnyddio strategaethau cyfathrebu
- Yn cynhyrchu iaith nad yw’n ragweladwy o raid
- Ymgais i gysylltu iaith â chyd-destun

## Nodweddion gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar gywirdeb

- Yn adlewyrchu defnydd iaith yn yr ystafell ddosbarth
- Ffocws ar ffurfio esiamplau cywir o iaith
- Ymarfer iaith tu hwnt i’w chyd-destun
- Ymarfer tameidiau bychain o iaith
- Heb fod yn galw am gyfathrebu ystyrlon
- Dewis iaith wedi ei reoli

# Tasg

Allwch chi roi esiamplau o weithgareddau sy’n ceisio datblygu *rhuglder* a gweithgareddau sy’n ceisio datblygu *cywirdeb*?

# Tasg Hunan Gyfeiriol

Gwrando ar y rhaglen radio isod ac ystyried y wybodaeth wrth ymateb i'r aseiniad.

- http://www.bbc.co.uk/programmes/b097ylvh
- http://www.bbc.co.uk/programmes/b097t440

.

# Trafodwch y cwestiynau hyn:

1.Ydy athro’n rhoi cyfle i’r disgyblion gynhyrchu iaith nad yw o anghenraid yn rhagweladwy?

2. Ydy athro’n rhoi gormod o bwyslais ar eirfa?

3.Ydy athro’n rhoi cyfleoedd i gael allbwn nad ydyw’n ieithyddol?

4. Ydw athro’n hyrwyddo ac yn meithrin hunaniaeth ddiwylliannol?

5.A roddir gormod o bwyslais ar un strwythur ieithyddol/cwestiwn ac ateb?

6. Ydy’r iaith a ddefnyddir yn adlewyrchu defnydd naturiol iaith (yn hytrach na iaith annaturiol yr ystafell ddosbarth)?

7. Ydy disgyblion yn cynhyrchu ystod eang o strwythurau iaith?

# Llyfryddiaeth a darllen pellach

Baker, C. (2011) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism (5th Edition).* United States of America: McNaughton & Gunn Ltd.

Richards, J.C. (2006) *Communicative Language Teaching Today*. Cambridge: Cambridge University Press.

Richards, J.C. & Rodgers, T S. (2014) *Approaches and Methods in Language Teaching (3rd Edition)*. Cambridge: Cambridge University Press.